7 Medi 2017

Annwyl ,

**ATISN 11480**

Diolch am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 15 Awst a oedd yn gofyn am:

(i) copi o bob drafft o Strategaeth Iaith y Llywodraeth "Cymraeg 2050" a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf eleni a ddarparwyd i unigolion nad ydynt yn gyflogedig gan Lywodraeth Cymru

(ii) unrhyw gopïau o gynlluniau neu bolisïau drafft ynghylch recriwtio, hyfforddi neu gyflogaeth a gynigia newid gofynion sgiliau Cymraeg gweision sifil Llywodraeth Cymru

Mae copi o'r wybodaeth i'w rhyddhau o dan rhan (i) eich cais wedi ei hatodi yn nogfen 2.

Mewn perthynas â rhan (ii), nid oes gennym gynlluniau neu bolisïau drafft mewn perthynas â recriwtio, hyfforddiant neu gyflogaeth sy'n gysylltiedig ag unrhyw newidiadau arfaethedig i ofynion sgiliau Cymraeg.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: FreedomOfInformationOfficer@cymru.gsi.gov.uk

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire

SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir